# Cofnodion cryno - Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd

Lleoliad:

**4B Tŷ Hywel/Teams**

Dyddiad: Dydd Gwener, 9 Mai 2025

Amser: 10:00-12:30

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Pwyllgor: | Bob Evans, Cynghorydd Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor<br>Menai Owen-Jones, Cynghorydd Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor<br>Dr Mark Egan, Cynghorydd Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor |
| Eraill: | Dr Aled Eirug, Cynghorwr Annibynnol<br>Yr Athro Uzo Iwobi, Cynghorwr Annibynnol |
| Staff y Comisiwn: | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, a'r Swyddog Cyfrifyddu<br>Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd<br>Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>Lisa Bowkett, Prif Swyddog Cyllid<br>Lee Glover, Prif Weithredwr Archwilio<br>Clare Thomas, Archwilio Cymru<br>Leanne Baker, Prif Swyddog Pobl<br>Phil Boshier, Pennaeth Llywodraethu a Chynllunio Strategol |

| | |
|---|---|
| | Kathryn Hughes, Clerc Pwyllgor, a'r Rheolwr Risg, Parhad Busnes a Llywodraethu<br>Buddug Saer, Dirprwy Glerc Pwyllgor<br>Bedwyr Jones, Uwch-reolwr Prosiect TGCh (eitem 15)<br>Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol (eitem 21) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.0 Eitem 1 - Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Nodwyd tri ymddiheuriad gan Hefin David, AS a Chomisiynydd; Matthew Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd; ac Eve Jennings, Uwch-reolwr Prosiect TGCh.

## 2 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 10 Chwefror, Camau i'w cymryd a Materion yn Codi

2.0 Eitem 2 - Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 10 Chwefror, Camau i'w cymryd a Materion yn Codi

ARAC (25-02) Papur 1 - Cofnodion drafft cyfarfod 10 Chwefror 2025

ARAC (25-02) Papur 2 - Crynodeb o'r camau i'w cymryd

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror. Roedd yr amserlen weithredu wedi'i diweddaru gyda chamau i'w cymryd a oedd yn weddill naill ai wedi'u cwblhau neu wedi'u cynnwys ar yr agenda.

2.2 Nododd y Cadeirydd fod nifer o bapurau wedi cael eu dosbarthu y tu allan i'r pwyllgor er gwybodaeth.

## 3 Diweddariad Cynnydd o ran Archwilio Mewnol

### Archwilio mewnol

3.0 Eitem 3 - Diweddariad Cynnydd o ran Archwilio Mewnol

ARAC (25-02) Papur 3 – Adroddiad Cynnydd o ran Archwilio Mewnol – Mai 2025

3.1 Adroddodd Lee Glover fod y cynllun archwilio mewnol yn mynd rhagddo yn ôl y disgwyl, gyda nifer o archwiliadau wedi'u cynllunio tua diwedd y flwyddyn ariannol. Roedd tri adroddiad wedi’u cwblhau, a chadarnhaodd Lee fod digon o waith wedi’i gwblhau i gefnogi ei farn flynyddol.

3.2 Roedd nifer o adroddiadau’n aros am ymatebion gan y rheolwyr, ac roedd eraill i fod i gael eu cwblhau’n fuan. Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd sicrhau bod yr holl adroddiadau wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod nesaf.

**Camau i’w cymryd**

Lee Glover a Lisa Bowkett i sicrhau bod yr holl adroddiadau archwilio mewnol yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl.

## 4 Strategaeth Archwilio Mewnol 2025-28, Cynllun Blynyddol a Siarter Archwilio Mewnol

4.0 Eitem 4 –

Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26 i 2027-28

Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26

Siarter Archwilio Mewnol (gan gynnwys cydymffurfio â’r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS))

ARAC (25-02) Papur 4 – Strategaeth Archwilio Mewnol 2025-28, Cynllun Blynyddol a Siarter Archwilio Mewnol

4.1 Cyflwynodd Lee y strategaeth archwilio fewnol a oedd wedi'i diweddaru ar ôl ymgynghori â'r rheolwyr. Tynnodd sylw at rai newidiadau bach o ganlyniad i'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) newydd, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2025. Roedd y GIAS yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gael strategaeth ar waith ac roedd yn cyfeirio at bwysigrwydd annibyniaeth archwilio mewnol ac yn cynnwys Strategaeth Archwilio Mewnol. Roedd y rhain eisoes ar waith ar gyfer y Comisiwn. Bu newid hefyd yn y derminoleg, gyda'i deitl yn newid o Bennaeth Archwilio Mewnol i’r Prif Weithredwr Archwilio, fel rhan o'r ymdrech i hyrwyddo archwilio mewnol ar draws sefydliadau.

4.2 Disgrifiodd Lee integreiddio Siarter Archwilio Mewnol i'r ddogfen strategaeth. Amlinellodd hefyd y meysydd archwilio arfaethedig ar gyfer 2025-26, gan gynnwys rheoli risg, urddas a pharch, rheoliadau ariannol, a pharhad busnes.

4.3 Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor am y strategaeth, eglurodd Lee y byddai disgrifiad yr archwiliad seiberddiogelwch yn cael ei ddiweddaru a bod yr archwiliad rheoli ystadau wedi'i drefnu ar gyfer 2027-28 oherwydd cydbwyso'r cynllun ag adnoddau. Nododd y Pwyllgor hefyd y byddai'r adolygiad o reoli dangosyddion perfformiad allweddol yn digwydd yn 2027-28, ac y byddai dwyn hynny ymlaen yn effeithio ar adolygiadau eraill yn y strategaeth. Nododd Lee hefyd y byddai'r strategaeth yn cael ei hadolygu'n barhaus i ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg.

4.4 Gofynnodd aelodau'r pwyllgor hefyd am gyfeiriadau yn y strategaeth at effeithiolrwydd rheolaethau risg ac ymhelaethodd Lee ar hyn, gan nodi y byddai'r archwiliad o reoli risg bellach yn digwydd yn 2025-26.

4.5 Ychwanegodd Phil Boshier, o ganlyniad i fapio rheolaethau risg fel rhan o'r broses mapio sicrwydd, fod y strategaeth archwilio wedi'i halinio ymhellach â rhai risgiau allweddol, a bod adolygiad o'r rheolaethau risg, a fyddai'n mapio'r rhain ar draws y tair llinell sicrwydd, wedi'i gynllunio.

## 5 Trafod yr adroddiad Archwiliad Mewnol diweddaraf

5.0 Eitem 5 – Trafod yr adroddiad Archwiliad Mewnol diweddaraf

ARAC (25-02) Papur 5 – Adroddiad Archwiliad Mewnol ar Gaffael i Dalu

5.1 Adroddodd Lee Glover fod yr archwiliad Caffael i Dalu wedi derbyn lefel ddigonol o sicrwydd.

5.2 Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor, cadarnhaodd Phil Boshier fod y Strategaeth Gaffael wedi'i diweddaru yn fuan ar ôl i'r archwiliad gael ei gwblhau er mwyn adlewyrchu'r Ddeddf Gaffael newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar, a bod cofrestr contractau ar waith (ar gael ar wefan y Senedd) ac yn cael ei rheoli'n weithredol. Rhoddodd sicrwydd hefyd ynghylch gweinyddu llofnodion contractau a amlygwyd yn ystod yr archwiliad.

5.3 Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad hwn ac fe'u calonogwyd gan y systemau a'r gwiriadau sydd ar waith.

## 6 Adroddiad Blynyddol a Barn yr adran Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25

6.0 Eitem 6 – Adroddiad Blynyddol a Barn yr adran Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25

ARAC (25-02) Papur 6 – Adroddiad Blynyddol a Barn yr adran Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25

6.1 Cyflwynodd Lee ei Adroddiad Blynyddol a'i Farn Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25, gan gadarnhau bod y Comisiwn wedi cynnal prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol digonol ac effeithiol. Tynnodd sylw at gydymffurfiaeth â safonau proffesiynol, gan gynnwys y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) newydd a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2025, ac addasrwydd trefniadau i sicrhau annibyniaeth rôl y Prif Weithredwr Archwilio.

6.2 Mynegodd y Pwyllgor foddhad ar yr adroddiad a'r sicrwydd a ddarparwyd.

## 7 Diweddariad Archwilio Cymru

**Archwiliad allanol**

7.0 Eitem 7 – Diweddariad Archwilio Cymru

ARAC (25-02) Papur 7 – Cynllun Archwilio Cymru 2025

7.1 Disgrifiodd Clare Thomas y Cynllun Archwilio gyda pherthnasedd cynllunio wedi'i osod ar 1% o wariant gros a'r trothwy adrodd wedi'i osod ar 5% o berthnasedd.

7.2 Tynnodd Clare sylw at yr ymatebion bwriadedig i risg sylweddol safonol o amgylch gorbwyso rheolwyr, fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio, a meysydd ffocws eraill, gan gynnwys: datgeliadau adroddiadau tâl; gwerthuso asedau eiddo; gwerthuso rhwymedigaeth/gwarged net cronfa bensiwn; datgeliadau partïon cysylltiedig; a throsglwyddo i ddarparwr cyflogres newydd.

7.3 Ceisiodd y Cadeirydd sicrwydd ynghylch prosesau gwerthuso ac archwilio annibynnol gwybodaeth am bensiynau o ystyried yr oedi a brofwyd yn ystod archwiliad

y llynedd. Sicrhaodd Archwilio Cymru y Pwyllgor fod prosesau ar waith fel rhan o’r contract i sicrhau na fyddai hyn yn achosi problem eleni.

7.4 Arhosodd y tîm archwilio yr un fath, a byddai'r archwiliad yn dechrau ar 12 Mai fel y trefnwyd. Nododd Clare fod yr amserlen ar gyfer adrodd erbyn 9 Mehefin ac i'r Pwyllgor ar 23 Mehefin yn dynn ond yn gyraeddadwy.

Amlinellodd Clare y ffi archwilio amcangyfrifedig, a oedd yn adlewyrchu cynnydd cymedrol oherwydd costau cyflogau a meysydd ffocws ychwanegol ar gyfer yr archwiliad. Cadarnhaodd y byddai'r ffi derfynol yn seiliedig ar y gwaith gwirioneddol a gwblhawyd.

7.5 Cafodd y Pwyllgor eu calonogi gan y cynllun, yn enwedig gan fod y tîm wedi aros yr un fath o'r flwyddyn flaenorol.

## 8 Protocol ar gyfer cydweithio

8.0 Eitem 8 – Protocol ar gyfer cydweithio

ARAC (25-02) Papur 8 - Protocol Cydweithio IA-EA (fel y'i cyflwynwyd ym mis Mai 2024)

8.1 Nododd y Pwyllgor y protocol cydweithio.

## 9 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft y Comisiwn a'r Datganiad Llywodraethu ar gyfer 2024-25

Llywodraethu'r Comisiwn

9.0 Eitem 9 – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft y Comisiwn a'r Datganiad Llywodraethu ar gyfer 2024-25

ARAC (25-02) Papur 9 – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25 – papur cwmpasu

ARAC (25-02) Papur 9 – Atodiad A – Datganiad Llywodraethu Drafft

ARAC (25-02) Papur 9a – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2024-25 – papur cwmpasu naratif ARAC

ARAC (25-02) Papur 9a – Atodiad A – Naratif drafft

9.1 Cyflwynodd Arwyn Jones yr adran naratif, gan egluro'r broses ar gyfer casglu a golygu erthyglau. Nododd hefyd fod y fethodoleg a'r fformat yn parhau i fod yn gyson â'r flwyddyn flaenorol. Canmolodd y Pwyllgor eglurder a chydlyniant thematig cynnwys y drafft a chanmolodd y dyluniad a'r cynllun.

9.2 Roedd gan aelodau'r Pwyllgor sylwadau bach ar naratif y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, gan awgrymu y gallai hyn fod yn fwy eglur i rai, a chytunwyd i rannu eu hadborth gyda swyddogion.

9.3 Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor ailystyried fframwaith y Dangosyddion Perfformiad Allweddol maes o law, a allai fwydo i unrhyw adolygiad yn y dyfodol o'r mesurau cyn y Seithfed Senedd.

**Adran cyfrifon**

9.4 Gan nad oedd yr archwiliad wedi dechrau eto, ni chyflwynwyd unrhyw ffigurau i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ffigurau drafft, adroddodd Lisa am danwariant disgwyliedig o 1.1% ar y cap gweithredol a oedd o fewn y targed Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydledig.

**Datganiad Llywodraethu**

9.5 Amlinellodd Phil Boshier fethodoleg newydd sy'n sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS), gan gynnwys Datganiad Sicrwydd Corfforaethol (CAS) trawsbynciol a oedd wedi disodli'r datganiadau Cyfarwyddwyr a gynhyrchwyd yn flaenorol. Cyfeiriodd at y diagram yn yr AGS drafft yn amlinellu'r corff tystiolaeth ategol i lywio'r CAS, a oedd wedi'i adolygu gan y Bwrdd Gweithredol, y Prif Weithredwr a'r Clerc, ac a oedd yn destun gwaith craffu annibynnol gan aelodau'r Pwyllgor ym mis Mawrth.

9.6 Nododd Phil y cynnydd cadarnhaol a adroddwyd yn erbyn y meysydd i ganolbwyntio arnynt a oedd wedi'u cynnwys yn AGS y flwyddyn flaenorol. Cyfeiriodd hefyd at y lefelau sicrwydd ar bob elfen yn y CAS, a thynnodd sylw at rai o'r meysydd i'w gwella a nodwyd, a oedd wedi llywio'r meysydd i ganolbwyntio arnynt a gynhwyswyd yn yr AGS drafft.

9.7 Diolchodd Phil i Bob Evans a Menai Owen-Jones am eu cyfraniadau gwerthfawr i sesiwn her CAS ym mis Mawrth.

9.8 Rhoddodd aelodau'r Pwyllgor rywfaint o adborth penodol ar yr AGS, a oedd yn cynnwys awgrymu'r angen am eglurder pellach ynghylch sut mae'r strwythurau llywodraethu newydd yn cyd-fynd, ac i ystyried tynnu sylw at gynnwys a oedd yn wahanol i flynyddoedd blaenorol.

9.9 Croesawodd y Pwyllgor y fframwaith sicrwydd cryfach ac roeddent wedi'u plesio gan y gwaith yn y maes hwn, a roddodd sicrwydd cryf i'r Swyddog Cyfrifyddu.

## 10 Adroddiad Diweddariad Llywodraethu

10.0 Eitem 10 – Adroddiad Diweddariad Llywodraethu

ARAC (25-02) Papur 10 – Diweddariad Llywodraethu

10.1 Cyflwynodd Phil Boshier ei adroddiad diweddaru, a thynnodd sylw at y canlynol:

- alinio cofrestr risg y Comisiwn â'r cynllun Archwilio Mewnol i sicrhau bod digon o sylw i archwilio ar gyfer risgiau allweddol a chynlluniau i adolygu rheolaethau risg, y ddau o ganlyniad i'r gwaith a wnaed ar y fframwaith sicrwydd;
- y defnydd o'r datganiadau parodrwydd i dderbyn risg a gymeradwywyd yn ddiweddar mewn papurau penderfyniad a chynlluniau i sicrhau bod eu defnydd wedi'i wreiddio;
- cynnydd ar adnewyddu'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig, y cynllun gweithlu a chynlluniau gwasanaeth a fyddai'n bwydo i'r gwaith o ddatblygu cyllideb 2026-27, gan ddangos bod hyn i gyd wedi'i alinio;
- cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol o bortffolio o brosiectau fel rhan o'r Fframwaith Rheoli Portffolio y byddai achosion busnes yn ceisio awdurdod i wario ar eu cyfer ac a fyddai'n cael eu monitro gan y Grŵp Rheoli Portffolio; a
- gwelliannau gweinyddol ar gyfer olrhain ac adrodd ar gamau gweithredu o'r Strategaeth Newid i Fwrdd Newid Senedd 26, ac i hwyluso olrhain penderfyniadau ac unrhyw newidiadau i linellau sylfaen yn y strategaeth, a sut y cafodd y rhain eu hadlewyrchu mewn cynlluniau gweithredu.

10.2 Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch ystyriaeth y Comisiwn o gontractau mewnol, eglurodd Ed fod y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig yn cynnwys manylion am y gwaith hwn a fyddai'n cael ei ddatblygu yn y Seithfed Senedd.

10.3 Gofynnodd y Pwyllgor am fynediad at y Fframwaith wedi'i ddiweddaru pan fyddai ar gael, ac awgrymodd sesiwn friffio ar wahân ar hyn maes o law.

10.4 Nododd y Pwyllgor y diweddariad, gan ddiolch i Phil am ei gyfraniad.

**Camau i'w cymryd**

Dosbarthu'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru pan fydd ar gael.

## 11 Diweddariad ar gyllid a'r gyllideb

11.0 Eitem 11 - Diweddariad ar gyllid a'r gyllideb

ARAC (25-02) Papur 11 - Diweddariad ar gyllid a'r gyllideb

11.1 Cadarnhaodd Lisa fod cyllideb 2024-25 wedi'i rheoli'n effeithiol, gyda thanwariant disgwyliedig o 1.1% ac arbedion o £315,000 wedi'u cyflawni, gyda chymorth gweithrediad effeithiol y Grŵp Rheoli Portffolio.

11.2 Cododd aelodau'r Pwyllgor nifer o gwestiynau'n ymwneud â thargedau arbedion, a oedd arbedion oherwydd effeithlonrwydd yn hytrach na llai o alw, a phenderfyniadau ynghylch lefelau staffio.

11.3 Eglurodd Lisa nad oedd targedau arbedion ar gyfer y dyfodol wedi'u gosod oherwydd y newid sylweddol yn y ddwy gyllideb nesaf i gefnogi Senedd fwy, gyda'r ceisiadau cyllideb mor fach â phosibl. Mewn ymateb i gwestiwn gan Mark Egan ynghylch a oedd yr arbedion yn cynrychioli gostyngiadau mewn cyfaint neu effeithlonrwydd, cytunodd Lisa i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor.

11.4 O ran cyflog staff, amlinellodd Lisa y trafodaethau parhaus ynghylch cytundeb cyflog staff newydd a fyddai'n cael ei adlewyrchu mewn cynigion cyllideb yn y dyfodol. Roedd cynnig cynnydd o 5% gan Lywodraeth y DU ar draws Gwasanaeth Sifil y DU wedi'i adlewyrchu yng nghais cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2025-26, ond nid oedd y cylch gwaith cyflog i lywio cyllidebau yn y dyfodol wedi'i gyhoeddi.

11.5 Eglurodd Lisa a Phil fod y cap sefydliad wedi'i osod ar gyfer cyflawni gweithgareddau busnes fel arfer, a oedd yn eithrio unrhyw swyddi newydd yn ymwneud â'r Seithfed Senedd neu raglenni Ffyrdd o Weithio. Amlinellwyd sut y cafodd yr holl recriwtio ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwyr cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol i'w gymeradwyo. Rhoddwyd sicrwydd fod y prosesau sydd ar waith yn cynnwys herio a thrafodaethau priodol, fel rhan o'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, ynghylch fforddiadwyedd neu unrhyw achos posibl o dorri'r cap.

11.6 Nododd y Pwyllgor y colledion a'r taliadau arbennig a oedd wedi'u cynnwys yn niweddariad Lisa.

**Camau i'w cymryd**

Lisa Bowkett i ddosbarthu rhagor o fanylion am yr arbedion a gyflawnwyd.

## 12 Adroddiad Blynyddol ar Dwyll

12.0 Eitem 12 – Adroddiad Blynyddol ar Dwyll

ARAC (25-02) Papur 12 - Adroddiad Blynyddol ar Dwyll

12.1 Cyflwynodd Lisa yr Adroddiad Blynyddol ar Dwyll, gan nodi nad oedd unrhyw bryderon mawr. Roedd archwiliad iechyd gwrth-dwyll diweddar wedi gwneud mân argymhellion, gan gynnwys un ynghylch mwy o hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll. Roedd bancwyr y Comisiwn eisoes yn darparu hyfforddiant rheolaidd ar faterion twyll ond byddai Lisa yn canolbwyntio ar fwrw ymlaen â'r argymhellion pan fyddai archwiliad y cyfrifon wedi'i gwblhau.

12.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad, gan nodi ei fod yn ddarn pwysig o sicrwydd.

## 13 Polisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll

13.0 Eitem 13 – Polisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll

ARAC (25-02) Papur 13 – Polisi Chwythu'r Chwiban a Pholisi Twyll 2025 – Diweddariadau

ARAC (25-02) Papur 13 – Atodiad A – Polisi Chwythu'r Chwiban

ARAC (25-02) Papur 13 – Atodiad B – Polisi Llygredd Twyll a Llwgrwobrwyo

ARAC (25-02) Papur 13 - Atodiad C - Cynllun Ymateb i Dwyll

13.1 Nododd y Pwyllgor y polisïau wedi'u diweddaru a thynnodd yr aelodau sylw at yr awgrym yn yr archwiliad diweddar ar atal twyll, o gyflwyno llinell adrodd annibynnol i wella hyder yn y broses chwythu'r chwiban. Cynigiodd Lee Glover wasanaethau Validera ar gyfer mecanwaith o'r fath, a chytunodd Lisa i ystyried hyn.

13.2 Nodwyd y papurau, a diolchodd y Pwyllgor i Lisa am ei diweddariad.

## 14 Risgiau corfforaethol

14.0 Eitem 14 – Risgiau corfforaethol

ARAC (25-02) Papur 14 - Risgiau corfforaethol

ARAC (25-02) Papur 14 - Atodiad A - Crynodeb o’r Gofrestr o Risgiau Corfforaethol

ARAC (25-02) Papur 14 - Atodiad B - Risgiau corfforaethol a nodwyd

14.1 Nododd y Pwyllgor y gofrestr risg wedi'i diweddaru, a chododd nifer o gwestiynau.

14.2 Mewn ymateb i gwestiynau’n ymwneud â'r risg seiberddiogelwch, rhoddodd Arwyn y diweddariadau a ganlyn: byddai hyfforddiant ymwybyddiaeth seiberddiogelwch i’r Aelodau yn uchel ar yr agenda ar ddechrau tymor newydd y Senedd; roedd adolygiad o ddefnydd yr Aelodau o ddyfeisiau personol yn mynd rhagddo; roedd y broses gaffael ar gyfer adnewyddu llwyfan amddiffyn e-bost yn mynd rhagddi; byddai system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd ar waith erbyn mis Medi; byddai adolygiad o brosesau fetio sy'n ymwneud â swyddfeydd etholaethol yn cael ei symud ymlaen; a byddai cynlluniau ar gyfer y prosiect segmentu rhwydwaith arfaethedig yn cael eu symud ymlaen.

14.3 Nododd y Pwyllgor yr ychwanegiad o'r risg ynghylch cefnogi’r Aelodau i weithredu canlyniad adolygiad y Bwrdd Taliadau Annibynnol o strwythurau cyflog a graddio ar gyfer staff cymorth yr Aelodau.

**Camau i’w cymryd**

Arwyn Jones i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o ddyfeisiau personol yr Aelodau.

## 15 Archwiliad Beirniadol o Un Risg Gorfforaethol neu Fater Cyfoes a Nodwyd – System Adnoddau Dynol/Cyflogres (prosiect PAR)

15.0 Eitem 15 – Archwiliad Beirniadol o Un Risg Gorfforaethol neu Fater Cyfoes a Nodwyd – System Adnoddau Dynol/Cyflogres (prosiect PAR)

Eitem lafar (yn cyfeirio at y diweddariad yn y Gofrestr o Risgiau Corfforaethol – eitem 14)

Mae rhai manylion yn absennol o'r cofnodion hyn am resymau cyfrinachedd masnachol

15.1 Cyflwynodd Ed yr eitem hon, gan nodi nad oedd wedi bod yn bosibl cyflwyno adroddiad cau'r prosiect gan fod rhai materion yn weddill, a oedd wedi cael eu huwchgyfeirio.

15.2 Rhannodd Bedwyr Jones ddiweddariad gyda'r Pwyllgor yn absenoldeb Eve. Roedd prif elfennau'r system wedi mynd yn fyw mewn pryd ar gyfer cyflogres mis Ionawr. Canmolodd ymdrechion tîm y prosiect wrth fynd i'r afael â'r heriau a wynebwyd yn ystod y prosiect, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â newidiadau personél. Roedd yr amserlen ar gyfer Cam 1 y prosiect wedi'i hymestyn hyd nes bod y broblem rhyngwyneb pensiwn (MyCSP) wedi'i datrys. Pan fydd hyn wedi'i ddatrys, gellid llunio adroddiad cloi a gwersi a ddysgwyd ar gyfer Cam 1 y prosiect.

15.3 O ran adrodd ar gynnydd, cyflwynodd Bedwyr ddiweddariadau misol ar y risgiau a'r problemau i'r bwrdd prosiect ac i'r Bwrdd Gweithredol. Ymhelaethodd ar y materion a'r risgiau byw i'r Pwyllgor.

15.4 Amlinellodd Bedwyr hefyd y cynnydd ar ddatblygu prif elfennau Cam 2 y prosiect. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodi oriau hyblyg, cyfeiriadur rhyngweithiol, adrodd ar berfformiad (adolygiadau PDR), system rheoli dysgu, archifo data ac adroddiadau rheoli.

15.5 Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd ar reolaeth o'r effaith ar lesiant staff sy'n ymwneud â'r prosiect hwn a'r amserlen estynedig, a chanmolodd ymdrechion y tîm. Cytunodd

swyddogion i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am gynnydd, a rheoli risgiau allweddol.

15.6 Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd datrys y problemau pensiynau (MyCSP) cyn y dyddiad cau ym mis Gorffennaf er mwyn osgoi cosbau ariannol i'r Comisiwn.

## 16 Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

16.0 Eitem 16 – Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

ARAC (25-02) Papur 15 - Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

16.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad, a oedd yn rhan bwysig o'r fframwaith sicrwydd, a diolchodd i Matthew Richards am y sicrwydd a ddarparwyd ganddo.

## 17 Crynodeb o'r ymadawiadau

17.0 Eitem 17 – Crynodeb o'r ymadawiadau

ARAC (25-02) Papur 16 – Crynodeb o’r ymadawiadau

17.1 Nodwyd tri achos o ymadael â gweithdrefnau caffael arferol. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am fanylion pellach am y prosiect archifo, a chytunodd Matthew i'w rhannu.

**Camau i’w cymryd**

Matthew Richards i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect archifo.

## 18 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu

Y Pwyllgor Busnes

18.0 Eitem 18 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu

ARAC (25-02) Papur 17 - Adroddiad Blynyddol drafft ARAC ar gyfer 2024-25

18.1 Diolchodd y Cadeirydd i Kathryn Hughes am ei gwaith ar Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor i'r Comisiwn. Cytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gwblhau y tu allan i'r cyfarfod, ac y byddai'r amserlen ar gyfer derbyn sylwadau yn cael ei dosbarthu.

## 19 Cylch gorchwyl

19.0 Eitem 19 – Cylch gorchwyl

ARAC (25-02) Papur 18 - Cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru - Ebrill 2025

19.1 Nododd y Pwyllgor y cylch gorchwyl a oedd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newid yn y derminoleg i Brif Weithredwr Archwilio a fyddai'n cael ei gyhoeddi ar y wefan.

## 20 Y flaenraglen waith

20. Eitem 20 - Y flaenraglen waith

ARAC (25-02) Papur 19 - Y flaenraglen waith

20.1 Roedd y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol wedi cael ei thrafod yn fanwl yng nghyfarfod mis Chwefror ac nid awgrymwyd unrhyw newidiadau pellach.

## 21 Rhaglen y Seithfed Senedd

Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion corfforaethol

21.0 Eitem 21 – Rhaglen y Seithfed Senedd

ARAC (25-02) Papur 20 – Rhagdybiaethau Cynllunio Cyffredin Corfforaethol y Seithfed Senedd

ARAC (25-02) Papur 21 – Amserlen Rhaglen y Seithfed Senedd – eitem lafar

21.1 Croesawodd y Cadeirydd Anna Daniel i'r cyfarfod. Cyflwynodd Anna y rhagdybiaethau cynllunio corfforaethol a'r amserlenni wedi'u diweddaru ar gyfer Rhaglen y Seithfed Senedd. Amlinellodd hefyd yr ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol mewn perthynas ag adolygiad y Penderfyniad ar gyfer cyflog a graddio staff yr Aelodau. Adroddodd, yn dilyn ymarfer recriwtio diweddar, fod y Bwrdd bellach yn ôl i'w nifer llawn o bum aelod.

21.2 Eglurodd Arwyn fod cyfathrebu allanol yn cael ei gynyddu i baratoi ar gyfer y newidiadau yn y system etholiadol. Roedd y rhaglen yn cynnwys mynychu sioeau amaethyddol rhanbarthol a chyfres o ddigwyddiadau mewn neuaddau tref.

21.3 Eglurodd Anna fod gwaith ar y gweill i ystyried goblygiadau adroddiad Pwyllgor Senedd y Dyfodol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a oedd yn darparu rhai myfyrdodau defnyddiol yn ogystal ag argymhellion ar gyfer y Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion. Roedd tîm Cymorth Busnes yr Aelodau hefyd yn paratoi canllawiau ar rai materion yn ymwneud yn benodol â staff cymorth yr Aelodau a allai wynebu diswyddiadau ar ddiwedd y Senedd hon. Amlinellodd Anna hefyd ddechrau gwaith ar archwiliad sensitif i rywedd o'r Senedd, a fyddai'n cael ei gynghori gan arbenigwr byd-eang mewnol ar y pwnc, a byddai cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn.

21.4 Canolbwyntiodd trafodaeth bellach ar gapasiti ystafelloedd pwyllgora, y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg, a hyfforddiant cydraddoldeb.

21.5 Cadarnhaodd swyddogion nad oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer ystafelloedd pwyllgora ychwanegol gan ei bod yn bosibl cynnal pum cyfarfod pwyllgor ar yr un pryd, gyda rhai pwyllgorau'n cyfarfod yn rhithwir. Roedd ystafell bwyllgora ychwanegol ar gael hefyd at ddibenion parhad busnes, rhag ofn y bydd problemau technegol neu aflonyddwch.

21.6 Ar ddechrau pob tymor yn y Senedd, adolygwyd ac adnewyddwyd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Byddai'r Comisiynwyr newydd yn gyfrifol am osod yr uchelgais ar gyfer y Seithfed Senedd. Roedd Arwyn yn hapus i gynnwys Menai mewn trafodaethau yn y dyfodol.

21.7 Cododd Uzo Iwobi gwestiwn penodol ynghylch y gwaith cydraddoldeb cyffredinol, a sut y gallai hyn adlewyrchu pryderon yn y gymuned ynghylch amrywiaeth a chynhwysiant. Mewn ymateb, rhoddodd Anna sicrwydd y byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r rhaglen hyfforddi ar gyfer y Seithfed Senedd, nad oedd wedi'i chwblhau eto, a chynigiodd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

21.8 Fel y gofynnwyd gan y Cadeirydd, rhoddodd Anna ddiweddariad ar gapasiti y tîm i gefnogi'r Rhaglen ehangach. Rhoddodd sicrwydd bod adnoddau'n parhau i gael eu defnyddio'n briodol, gan gynnwys y rhai a ryddhawyd nawr bod Pwyllgor Senedd y Dyfodol wedi cyhoeddi ei adroddiad.

21.9 Croesawodd Mark Egan ei gyfranogiad yn y gwaith cynllunio senario a ddisgrifiodd fel un trawiadol, proffesiynol a soffistigedig, ac y gallai'r Pwyllgor gymryd

sicrwydd ohono. Byddai maint y gwaith hwn yn rhoi'r Comisiwn yn y sefyllfa orau bosibl.

21.10 Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch goblygiadau'r gwaith hwn ar gyfer y gyllideb, rhoddodd Ed sicrwydd bod darn sylweddol o waith ar y gweill i adolygu cynlluniau gwasanaeth yn erbyn y rhagdybiaethau cyffredin ac y byddai unrhyw effaith ar gyllidebau y tu allan i'r rhai a gafwyd eisoes yn cael ei huwchgyfeirio'n briodol.

**Camau i’w cymryd**

Anna Daniel i rannu manylion am y ddarpariaeth hyfforddi fel rhan o'r broses gynefino i’r Aelodau newydd, yn benodol ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant.

## 22 Ways of Working – Corporate update

22.0 Eitem 22 – Ffyrdd o Weithio

Eitem lafar - mae rhai manylion yn absennol o’r cofnodion hyn am resymau cyfrinachedd masnachol

22.1 Adroddodd Ed ar y cynnydd allweddol a ganlyn ar gyfer y pedwar prosiect o dan y rhaglen Ffyrdd o Weithio:

- *Y Pierhead* – roedd swyddogion yn adolygu defnyddiau posibl o'r adeilad yn y dyfodol.
- *Tŷ Hywel* – roedd y gwaith o greu swyddfeydd newydd i’r Aelodau o flaen yr amserlen ac roedd adleoli swyddfeydd Llywodraeth Cymru o fewn Tŷ Hywel ar y gweill.
- *Y Siambr* – aeth y broses o symud y trafodion ffurfiol o Siambr y Senedd i Siambr Hywel o fewn Tŷ Hywel yn dda, gyda rhai problemau cymharol fach a oedd yn cael sylw. Gan y byddai cyfarfodydd pwyllgor yn parhau yn y Senedd, byddai sŵn a tharfu yn cael eu cadw i'r lleiafswm tra byddai busnes yn mynd rhagddo.
- *Bae 32* – roedd y broses gaffael yn mynd rhagddi fel y disgwyliwyd, ac roedd deialog yn parhau â chyflenwyr posibl. Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion dylunio, sef 6 Mehefin.

Unrhyw fater arall

23.0 Eitem 23 – Unrhyw fater arall

Eitem lafar

23.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall.

Bu Clare Thomas, Archwilio Cymru yn bresennol mewn sesiwn breifat gydag aelodau'r Pwyllgor wedi i'r trafodion ffurfiol ddod i ben. Nid oedd unrhyw swyddogion eraill y Comisiwn yn bresennol ac ni chymerwyd cofnodion.

Trefnwyd i gynnal y cyfarfod nesaf ar 23 Mehefin 2025.

## 23 Addendum - IA report